

No.

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2023.

Mae'r Cyngor Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood

914 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

915 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

916 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Emma. Goodjohn	Agenda Eitem Rhif 6 – Pwyllgor Cynrychiolaeth Ieuenctid ar Ddysgu a Diwylliant (Cyf)	Buddiant Personol – Mae aelod o'r teulu yn aelod o Fforwm Ieuenctid y Fro.
Y Cynghorydd Ewan Goodjohn	Agenda Eitem Rhif 6 – Pwyllgor Cynrychiolaeth Ieuenctid ar Ddysgu a Diwylliant (Cyf)	Buddiant Personol – Mae aelod o'r teulu yn aelod o Fforwm Ieuenctid y Fro.

No.

Y Cyngorydd Helen Payne	Agenda Eitem Rhif 6 – Pwyllgor Cynrychiolaeth Ieuenctid ar Ddysgu a Diwylliant (Cyf)	Diddordeb personol a rhagfarnol – Ymddiriedolwr Fforwm Ieuenctid y Fro. Fe wnaeth y Cyngorydd Payne dynnu'n ôl o'r cyfarfod pan gafodd y mater ei ystyried.
-------------------------	--	---

917 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

918 CYHOEDDIADAU –

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu deg digwyddiad arall ers cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr, a bod y manylion i'w gweld yn niweddariad rheolaidd y Maer a oedd ar gael ar wefan y Cyngor.

Diolchodd i bawb a fynychodd ei Gwasanaeth Dinesig yn ddiweddar pan fu'n falch iawn o groesawu gwirfoddolwyr o amrywiaeth o elusennau a grwpiau cymunedol ac yn gallu diolch iddynt i gyd am y gwaith gwych a wnaethant ar draws Bro Morgannwg. Bu hefyd yn fraint iddi dderbyn y Dywysoges Frenhinol a oedd wedi cyfarfod â Chadetiaid y Môr yn Sain Dunwyd a derbyn saliw't oddi ar y lan gan Fad Achub Doc y Barri. Roedd hi hefyd wedi cael y pleser mawr o ymuno ag eraill i gyflwyno gwobrau i staff gofal cymdeithasol yn nigwyddiad Partneriaeth Caerdydd a'r Fro, a rhoddodd sylw i'r gwaith yr oedd y staff yn ei wneud ac a oedd yn fedrus ac yn ymroddedig i wasanaethu'r rhai sydd angen gofal a chymorth a'u llongyfarch ar eu cyflawniadau, ac estynnodd ei diolch diffuant iddynt ar ran y Cyngor.

I gloi, rhoddodd ei nodyn atgoffa terfynol i'r holl Aelodau bod Sefydliad y Maer yn parhau i fod yn agored ar gyfer ceisiadau grant newydd am gymorth.

919 YSTYRIED YR HYSBYSIAD O GYNNIG CANLYNOL [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR L. BURNETT A B.E. BROOKS] –

Sir Noddfa

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad mawr unigolion, teuluoedd, trefi a chymunedau ar draws Bro Morgannwg i ddarparu noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag gormes, erledigaeth a rhyfel yn eu mamwlad.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y cyfraniad y mae ffoaduriaid, ymfudwyr a'r rhai sy'n ceisio noddfa wedi'i wneud i gymunedau trefol a gwledig Bro Morgannwg drwy gydol ei hanes.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod dyfarnu Noddfa gan y Cyngor Sir yn ymwneud â gwella canlyniadau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy ddarparu amgylchedd

No.

croesawgar, herio gwahaniaethu a chanfyddiadau negyddol a sicrhau cyfle cyfartal.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach y gall bwlio, aflonyddu a brawychu oherwydd unrhyw nodwedd warchoddedig megis hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu gred grefyddol hefyd gael eu hwynebu gan unigolion ym Mro Morgannwg a bod gwerthoedd, nodau ac amcanion sylfaenol y datganiad yr un mor berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n byw ym Mro Morgannwg. Dylent hwythau hefyd gael mynediad i loches neu loches rhag gormes, erledigaeth neu beryglon eraill.

Mae'r Cyngor hwn felly yn penderfynu dod yn aelod o rwydwaith Awdurdod Lleol Dinas Noddfa a gweithio tuag at achrediad fel Cyngor Sir Noddfa i bawb, a defnyddio ei lwyfan i hyrwyddo croeso a chynhwysiant ar draws y gymuned leol ehangach.

Wrth gynnig y Cynnig, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i gydnabod cynhesrwydd a chefnogaeth pobl y Fro yn eu croeso i'r bobl hynny sy'n profi'r adegau gwaethaf. Roedd y golygfeydd a'r croeso cynnes a welodd yn Llanilltud Fawr a dargedwyd gan grwpiau asgell dde eithafol yn esiampl i bawb. Roedd gan y Fro hanes o groesawu pobl ac roedd hi'n sicr bod yna Gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod a fyddai mewn sefyllfa llawer gwell na hi i ymhelaethu ar y tapestri cyfoethog o ethnigrwydd a diwyllianau a oedd wedi cyfoethogi'r Fro drwy bererindodau, morio ac adeiladu.

Er bod y rhan fwyaf o Ddinasoedd a Siroedd Noddfa yn gweithio tuag at achrediad, roedd yn bwysig cydnabod bod darparu amgylchedd croesawgar, herio gwahaniaethu a chanfyddiadau negyddol a sicrhau cyfleoedd cyfartal yn rhywbeth y dylai'r Fro geisio'u darparu i holl drigolion y Fro. Teimlai y dylai gwasanaethau hygyrch a chynhwysol fod yn nod craidd i'r Cyngor, ond roedd hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd i lawer o drigolion y Fro – yn enwedig gyda'r pwysau presennol o ran costau byw, digartrefedd, bwlio, aflonyddu a brawychu a bygwth a brofir gan bobl – y dylai'r rheini hefyd gael noddfa a lloches. Gan gyfeirio at baragraff olaf y Cynnig, cynigiodd yr Arweinydd:

BOD y Cyngor yn penderfynu dod yn aelod o'r Rhwydwaith Awdurdodau Lleol Dinas Noddfa, gweithio tuag at achrediad fel Cyngor Sir Noddfa i bawb, a defnyddio'i lwyfan i hyrwyddo croeso a chynhwysiant ar draws y gymuned ehangach a'r gymuned leol ehangach.

Wrth eilio'r Cynnig dywedodd y Cynghorydd Brooks fod y syniad o noddfa a chynhwysiant yn cael ei werthfawrogi ym mhob diwylliant a'i fod wedi bodoli ers miloedd o flynyddoedd ar ryw ffurf neu'i gilydd. Roedd y nod o adeiladu cymunedau da a chynhwysol yn parhau'n anghyflawn gyhyd ag y bo rhai heb eu hintegreiddio, yn enwedig y rhai yr oedd eu bywydau dan y pwysau mwyaf – plant, menywod, pobl hŷn, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ceisio ymdopi â phwysau cymdeithasol enfawr a phryderus, megis digartrefedd, dioddef ofn a bygythiad. Byddai Cyngor Sir Noddfa yn hybu ac yn gweithio tuag at feithrin diwylliant o groeso a lletygarwch ym mhob cyd-destun, gan gynnwys cymunedau sy'n anodd eu cyrraedd. Byddai'n adlewyrchu'r gred bod y newid mwyaf effeithiol

No.

yn deillio o fudiad wedi'i ysgogi, a chan bobl yn gweithredu ar y cyd dros gydlyniant cymdeithasol a newid. Gweledigaeth gyffredin lle byddai llawer o sefydliadau ac unigolion ym Mro Morgannwg yn cydweithio i adeiladu diwylliant o groeso. Drwy weithio tuag at y weledigaeth, gallai pobl ddangos yr awydd i feithrin agwedd fwy cyfiawn a thrugarog tuag at bobl sy'n ceisio noddfa. Roedd hi'n credu'n gryf bod rhwymedigaeth gyfreithiol a moesol i ddarparu diogelwch a noddfa i'n gilydd – a oedd yn bwysicach fyth ar adegau o elyniaeth agored – yn ogystal â sicrhau bod pobl wedi'u cysylltu, a bod neb yn teimlo'n unig. Wrth gyfeirio at hen ddihareb Geltaidd, a ddehonglwyd fel “yng nghysgod ei gilydd y mae'r bobl yn byw”, dywedodd y Cyngorydd Brooks ei bod yn falch o gefnogi'r Cynnig i'r Cyngor ddod yn Gyngor Sir Noddfa i bawb.

Mynegodd y Cyngorydd Dr. Johnson gefnogaeth frwd Grŵp Plaid Cymru i'r Cynnig gan ddweud ei bod yn dda bod y Cynnig wedi'i ddwyn gerbron y Cyngor i drafod egwyddorion y sefyllfa yn hytrach na chael ei wthio drwodd mewn cyfarfod Cabinet. Gofynnodd a fyddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel fel y gellid gwneud gwaith pellach ar y cynnig a'i drafod ymhellach. Byddai'n ei groesawu pe bai mwy o ddatblygiadau polisi yn cael eu pennu fel hyn yn y dyfodol. Roedd ganddo un pryder sef y gellid gweld y Cynnig o fewn cyd-destun ehangach o ryfeloedd diwylliant yn cael eu hymlladd ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y cyfryngau Prydeinig asgell dde, gyda hyn yn ymgais i greu bwlch gwleidyddol o fewn y Cyngor. Roedd yn gobeithio na fyddai hyn yn wir. Roedd y Cynnig yn ei atgoffa'n eithaf cryf am araith yr oedd wedi'i rhoi gerbron Noddfa Clymbleidiau Ffoaduriaid Cymru yn ystod digwyddiad y Senedd yn 2015, pan oedd wedi siarad ochr yn ochr â Ross England (y Blaid Geidwadol) am weithrediad cynllun ffoaduriaid Syria ar y pryd ac roedd yn deg dweud eu bod wedi anghytuno ar nifer o feysydd. Tra yn ei rôl fel y Pennaeth Polisi ym Mhlaid Cymru, roedd papur wedi cael ei lansio ar fudo i Gymru, gan gynnwys ffocws ar ddyfnhau'r genedl o gysyniadau noddfa, rhoi mwy o rym i Lywodraeth Cymru, a thynnu elw preifat allan o'r system lloches. Ychydig fisoedd ynghynt roedd Cyngor Tref y Barri hefyd wedi trafod gyda chynrychiolwyr Cynllun Dinasoedd Noddfa y posibilrwydd o ddechrau menter ar y cyd a sefydlu gweithgor i drafod y pethau ymarferol. Dywedodd fod llawer wedi'i ddysgu o'r cyfarfod hwnnw a Chyngor Tref y Barri ac y byddai'n bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer Tref Noddfa. Teimlai, fel y Prif Awdurdod, fod y Cyngor mewn sefyllfa well i gyflawni'r addewidion a gynigiwyd gyda chyllideb gyffredinol uwch, cyfrifoldeb am dai a chymorth i deuluoedd, yn ogystal â llinell uniongyrchol i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith ei fod yn codi cwestiynau'n gyhoeddus yn rheolaidd am y gefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy'r amrywiol gynlluniau sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd. Roedd y cyhoeddiad diweddar am ddatblygiad safle Eagleswell, yn un maes yn unig lle roedd ei Grŵp wedi croesawu cynllun o'r fath ac yr oedd yn mynd y tu hwnt i ddarparu'r cymorth lleiaf derbyniol.

Wrth gloi, roedd y Cyngorydd Dr. Johnson o'r farn mai nawr oedd yr amser i ddyfnhau ymrwymadau ac addewidion a'i fod yn gobeithio y byddai'r Cynnig yn cael cefnogaeth unfrydol tra'n cydnabod yr angen i ddatblygu'r manylion a'r camau gweithredu angenrheidiol i fynd ar drywydd y datganiad.

Roedd y Cynghorydd Sivagnanam o'r farn bod y Cynnig yn ei gwneud yn bosibl i'r Cyngor ddweud yn uchel yr hyn yr oedd yn ei gredu a'i gobaith oedd y byddai'r Fro yn cael ei gweld fel lle croesawgar a diogel i bawb sy'n ofni am eu diogelwch, eu llesiant, neu yn wir eu bywydau. Roedd y Cynnig yn ymwneud â dynoliaeth a'r gred ein bod yn gymuned sy'n gofalu am bawb, yn enwedig y rhai â'r angen mwyaf. Roedd rethreg elyniaethus a dad-ddyneiddiol yn bodoli mewn mannau eraill yn y DU. Roedd cosbi pobl a bygwth eu ceisiadau am loches ar sail sut y maent yn teithio i geisio lloches yn mynd yn groes i hawliau o'r fath ac yn tanseilio'r hanes o gynnig noddfa i bobl a oedd ei angen. Wrth gyfeirio at ei ward ei hun bu llawer iawn o weithio mewn partneriaeth ymhlith unigolion, grwpiau ffydd a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau, yn fwyaf diweddar, bod teuluoedd o Syria ac Wcráin wedi cael eu croesawu. Yn anad dim, dywedodd fod y Cynnig yn cyfrannu at weledigaeth y Cyngor, a oedd yn ymwneud â gwneud y Fro nid yn unig yn groesawgar i ymfudwyr, ond hefyd yn harneisio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil mudo i helpu'r economi a chymunedau i ffynnu.

Atgoffodd y Cynghorydd Carroll y Cyngor fod gan y wlad hanes hir a chyfoethog o groesawu pobl sy'n ffoi rhag erledigaeth, ac efallai mai'r ffordd orau o ddangos hyn oedd yr haelioni a ddangoswyd i bobl Wcráin. Roedd teuluoedd wedi cael croeso cynnes i gymunedau ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys, meddai gan ei gymuned yn Llandochau. Roedd yr ymateb hwnnw yn rhywbeth y gallem i gyd, fel Prydeinwyr, fod yn falch ohono. Nid oedd gwahaniaethu, aflonyddu na bygwth byth yn dderbyniol mewn cymdeithas ac, er bod digwyddiadau o'r fath yn gymharol brin, roedd dyletswydd ar bob un i godi llais a chael gwared arnynt. Wrth gyfeirio at ddigwyddiad diweddar yn Llanilltud Fawr, teimlai fod gan breswylwyr gwynion dilys am hen safle ysgol Eagleswell a'u bod yn cael eu defnyddio gan sefydliad allanol eithafol i greu rhwyg. Er bod trigolion yn iawn i fynegi rhwystredigaeth bod y safle'n cael ei ystyried ar gyfer y Ganolfan Feddygol y mae mawr ei hangen, ni ddylid caniatáu i'r defnydd arfaethedig gael ei herwgipio a dyna pam ei bod yn hanfodol cael sgwrs bwyllog, gytbwys a chymesur ar y materion hyn. Ni ddylai eithafwyr allu dominyddu'r ddadl ac, am resymau tebyg, roedd ganddo bryderon ynglŷn â'r Cynnig. Roedd ganddo bryderon bod y Rhwydwaith Awdurdodau Lleol Dinas Noddfa yn hyrwyddo nifer o bolisïau eithafol na allai eu cefnogi ac roedd yn hanfodol i ddiogelwch cenedlaethol bod hyn yn cael sylw. Roedd y sefydliad wedi gwrthwynebu'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau a'r Bil Ymfudo Anghyfreithlon a oedd wedi ceisio mynd i'r afael â cheiswyr lloches, ac roedd hefyd wedi cyhuddo Llywodraeth y DU o greu gelyniaeth, gwneud bwch dihangol o genhedloedd penodol ac o basio deddfau gwrth-ffoaduriaid. Yn ei farn ef roedd safiad hynod wleidyddol a phleidiol y sefydliad yn peryglu creu rhwyg yn hytrach nag undod, ac anogodd yr Aelodau yn gryf i feddwl yn ofalus cyn ymwneud ag ef. Dywedodd na fyddai'n cefnogi'r Cynnig.

Roedd y Cynghorydd John, fel Arweinydd Annibynwyr Cyntaf Llanilltud Fawr, yn cefnogi'r syniad o gartrefu ffoaduriaid o Wcráin dros dro ar hen safle Eagleswell. Roedd y ffoaduriaid wedi mynd trwy gyfnod heriol yn wyneb rhyfel ac roedd ei grŵp yn gwbl gefnogol ac yn sefyll yn gryf yn erbyn y Patriotic Alternative Group a oedd wedi ceisio meddiannu Llanilltud Fawr gyda'u hymddygiad hiliol. Roedd trigolion Llanilltud Fawr wedi dangos sut roedden nhw'n gofalu am bobl a sut roedd Llanilltud Fawr wedi bod yn dref Noddfa ers blynyddoedd lawer. Atgoffodd yr Aelodau fod Llanilltud Fawr wedi croesawu ffoaduriaid o Wlad Belg yn ystod y

No.

Rhyfel Byd Cyntaf pan gyrhaeddodd nhw Lanilltud Fawr rhwng 1914 a 1919. Ar hyd y blynyddoedd mae'r gymuned wedi croesawu pobl i Lanilltud Fawr. Roedd y sibrydion na fyddai canolfan iechyd yn cael ei hadeiladu yn ddi-sail ac roedd trafodaethau yn dal i fod ar y trywydd iawn. Byddai ef a'i grŵp yn cefnogi'r Cynnig ac yn gwrthwynebu unrhyw ymddygiad hiliol.

Cydnabu'r Cynghorydd Charles fod y mater yn bwnc sensitif iawn a'i bod yn hanfodol bod y mater yn cael ei drafod mewn modd aeddfed a chytbwys. Er ei bod yn iawn i gynnig lloches i'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth wirioneddol, roedd yn amlwg bod llawer o achosion lle roedd amddiffyniadau lloches yn cael eu camddefnyddio. Dyna pam na ddylai'r Cyngor ymuno â sefydliad a honnodd gamdriniaeth o'r fath, gan nad oedd wedi digwyddodd. Roedd angen mesurau i fynd i'r afael â'r mater. Teimlai'r Cynghorydd Charles fod y Weinyddiaeth yn cymryd arno nad oedd angen mesurau o'r fath, a honnodd y Rhwydwaith Dinas Noddfa mai'r risg oedd gadael y maes yn glir i grwpiau ac unigolion annymunol i ddominyddu'r ddadl.

Dywedodd y Cynghorydd Neil Thomas ei fod yn falch o bobl Bro Morgannwg a oedd wedi agor eu calonnau, eu cartrefi a'u cymunedau i bobl mewn angen ac i bobl sy'n ffoi rhag gormes a bygythiad. Roedd y Cynnig yn cydnabod ymateb gwych a haelioni pobl ac yn ceisio adeiladu ar y sylfaen wych honno a gwneud Bro Morgannwg yn noddfa groesawgar, gynhwysol a chefnogol i bawb, gan gynnwys trigolion â nodweddion gwarchoddedig a allai hefyd, yn anffodus, ddod ar draws agweddau negyddol, esgeulus gan rai.

Roedd y Cynghorydd Haines yn ystyried, yn ei farn ef, mai'r Cynnig yn bennaf oedd nad oedd y Sir Noddfa yn ymwneud â bod yn neis i bobl. Roedd yn ymwneud ag ymuno â grŵp, a oedd â siarterr wleidyddol. Teimlai y dylai'r Cyngor gael yr hawl i wneud ei benderfyniad ei hun ac i beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw i drydydd parti. Roedd gan y Cyngor hawl gyfreithiol i gartrefu a gofalu am ffoaduriaid ac roedd yn gweld y Cynnig math o nodi rhinweddau.

Amlygodd y Cynghorydd Perry ei fod wedi gweithio dramor mewn nifer o wledydd a'i fod yn falch ei fod wedi gwneud hynny ac nad oedd wedi cael profiad o'r hyn yr oedd yn rhaid i bobl sy'n dod yma i fyw wedi gorfod ei brofi. Roedd yn cyd-fynd â'r Cynghorydd Haines bod nodi rhinweddau'n broblem ac roedd wedi herio'r Cyngor a oedd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi cael ei chyflawni'n effeithiol o ystyried na allai swyddogion ddod o hyd iddo yn dilyn ei ymholiad. Yn ei farn ef nid oedd yn bodoli, ac felly nid oedd y Ddyletswydd wedi'i chyflawni ac roedd yn pryderu y byddai'r Cynnig yn arwain at fwy o dicio bocsys a thargedu niferoedd yn hytrach na darparu profiadau gwell i bobl mewn gwirionedd. Gan nad oedd wedi penderfynu ar y mater byddai'n gohirio rhoi ei farn nes yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Perkes yn cefnogi'r Cynnig yn llwyr gan ei fod yn gam cadarnhaol iawn ymlaen i Fro Morgannwg o ran ei ddymuniad gwirioneddol i fod yn Sir Noddfa. Roedd y Sir wedi'i hadeiladu ar amaethyddiaeth a'r dociau. Mae angen rhywle diogel, ffyniannus a gofal ar gyfer hawliau dynol. Roedd yn bwysig datblygu mwy o wybodaeth am y byd y tu allan, i beidio â bod yn blwyfol, a bod yn fwy o ran o'r byd ehangach. Roedd hi o blaid y Cynnig.

No.

Gan nodi ei fod yn cefnogi'r Cynnig, roedd gan y Cynghorydd Morgan bryderon ynghylch rhai o'r sylwadau cynharach a wnaed gan yr Aelodau a oedd wedi siarad yn erbyn y Cynnig oherwydd efallai nad oeddent wedi cymryd yr amser i ddeall sut roedd y broses ymgeisio'n gweithio mewn gwirionedd. Manteisiodd ar y cyfle i amlinellu'r prosesau. Roedd y Cyngor yn ceisio dod yn Aelod heb ddyfarniad, a olygai pe bai wedi ymrwymo i weledigaeth a gwerthoedd y Ddinas Noddfa na fyddai'r Cyngor yn dod yn aelod heb ei ddyfarnu hyd nes yr ymdriniwyd â'r broses arfarnu dyfarniadau a'i fod yn cael cydnabyddiaeth. Teimlai y byddai'n benderfyniad gwael iawn i wrthod y Cynnig o ystyried ei bwysigrwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Payne ei bod hithau hefyd yn cefnogi'r Cynnig ac ategodd y sylwadau yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson wedi'u gwneud yn gynharach yn y ddadl. Fel merch o'r Barri yr oedd ei thras yn hanu o nifer o lefydd gwahanol. Fel llawer o rai eraill, roedd gan bawb yr hawl i gartref saff a diogel ac yn ei barn hi roedd pleidleisio dros y Cynnig yn nodi popeth yr oedd y Cyngor yn sefyll drosto.

Wrth grynhoi, cydnabu'r Arweinydd gydnabyddiaeth y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch pam y daethpwyd â'r Cynnig gerbron y Cyngor yn hytrach nag i'r Cabinet – roedd yn fater yr oedd yn bwysig i'r Cyngor ei drafod. Roedd y Cynnig yn adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion y Cyngor a'r hyn yr oedd yn gweithio tuag ato. Roedd hefyd yn bwysig rhoi sylw i beth oedd safbwynt pawb ar y mater ac, o'r herwydd, gofynnodd bod pleidlais wedi'i chofnodi yn cael ei chynnal fel ei bod ar gof a chadw. Wrth gyfeirio at y materion ar safle Eagleswell roedd hi eisoes wedi darparu briff i'r holl Aelodau Etholedig ar y mater. O ran y sylw ynghylch canolfan feddygol ar y safle hwnnw, roedd y Cyngor wedi dweud y byddai'n parhau i gael sgysiau gyda'r Bwrdd Iechyd am ei gynllun strategol ar gyfer Gorllewin y Fro. Y bore cyn cyfarfod y Cyngor roedd hi wedi mynychu cyfarfod arall gyda'r Bwrdd Iechyd pan gytunwyd ar y cynllun strategol ar gyfer Gorllewin y Fro.

Wrth ddiolch i'r Cynghorydd John am ei sylwadau, teimlai'r Arweinydd fod Llanilltud Fawr wedi bod yn esiampl i'r Cyngor cyfan o ran ei safiad. Cyfeiriodd hefyd at nifer o drafodaethau yr oedd wedi'u cael gyda staff unigol a phobl ifanc a oedd yn pryderu na fyddai dim yn newid yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cydnabu efallai na fyddai newid yn digwydd ar unwaith, ond pe bai'r Cynnig yn cael ei basio byddai'n gwarantu y byddai'n gweithio mor galed ag y gallai ochr yn ochr ag unrhyw un arall i wneud yn siŵr bod pethau'n newid.

Cynhaliwyd Pleidlais Wedi'i Recordio ar Gynnig yr Arweinydd, a gafodd ei secondio'n briodol gan y Cynghorydd B.E. Brooks, bod y Cyngor yn dod yn aelod o Rwydwaith Awdurdodau Lleol Dinas Noddfa ac yn gweithio tuag at achrediad fel Cyngor Noddfa i bawb, ac i ddefnyddio ei lwyfannau i hyrwyddo croeso a chynhwysiant ar draws y gymuned leol ehangach.

No.

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Anne Asbrey	√		
Julie Aviet	√		
Gareth Ball	√		
Rhiannon Birch	√		
Bronwen Brooks	√		
Gillian Bruce		√	
Ian Buckley	√		
Lis Burnett	√		
Samantha Campbell	√		
George Carroll		√	
Christine Cave		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins	√		
Marianne Cowpe	√		
Pamela Drake	√		
Vincent Driscoll		√	
Anthony Ernest		√	
Robert Fisher		√	
Christopher Franks	√		
Wendy Gilligan	√		
Russell Godfrey		√	
Emma Goodjohn	√		
Ewan Goodjohn	√		

No.

Stephen Haines		√	
Howard Hamilton	√		
Sally Hanks	√		
William Hennessy		√	
Nic Hodges	√		
Mark Hooper	√		
Catherine Iannucci	√		
Gwyn John	√		
Dr. Ian Johnson	√		
Susan Lloyd-Selby	√		
Belinda Loveluck-Edwards	√		
Julie Lynch-Wilson	√		
Kevin Mahoney		√	
Naomi Marshallsea	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Helen Payne	√		
Elliot Penn	√		
Sandra Perkes	√		
Ian Perry	√		
Joanna Protheroe	√		
Ruba Sivagnanam	√		
Carys Stallard	√		
Neil Thomas	√		
Rhys Thomas		√	

No.

Steffan Wiliam	√		
Eddie Williams	√		
Mark Wilson	√		
Nicholas Wood		√	
CYFANSWM	39	13	

Pasiwyd y cynnig ac yna

PENDERFYNWYD – BOD y Cyngor yn dod yn aelod o Rwydwaith Awdurdodau Lleol Dinas Noddfa ac yn gweithio tuag at achrediad fel Cyngor Noddfa i bawb, ac i ddefnyddio ei lwyfannau i hyrwyddo croeso a chynhwysiant ar draws y gymuned leol ehangach.

920 CYNRYCHIOLAETH IEUENCTID AR Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT (CYF) –

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

RESOLVED –

(1) BOD Aelodaeth y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael ei diwygio i gynnwys dwy sedd heb bleidlais i gael eu dyrannu i gynrychiolwyr o bob un o'r sefydliadau canlynol o'r Flwyddyn Ddinesig 2023/24 ac ymlaen:

- Fforwm Ieuenctid y Fro; a
- Chyngor Ieuenctid y Fro

(2) DYLAI aelodaeth y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant cael ei diwygio'n unol â hynny.

(3) DYLAI'R newid yn yr aelodaeth a nodir ym Mhenderfyniad (1) uchod cael ei adolygu ymhen dwy flynedd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi sylw i'r cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod i gefnogi'r gwaith o gyflwyno adroddiad Cabinet "Adolygu'r Cabinet Ieuenctid" a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2021.

(2) Diwygio aelodaeth y Pwyllgor Craffu.

(3) Sicrhau bod y trefniadau'n cael eu hadolygu'n gyson.

D.S. Gadawodd y Cyngorydd Payne y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem hon.

921 ENWEBU'R DARPAR FAER A'R DARPAR DDIRPRWY FAER AR GYFER BLWYDDYN CYNGOR 2021/22 (PW) -

Roedd adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu i Gadeirydd y Prif Gyngor gael ei ethol yn flynyddol gan y Cyngor o blith y Cynghorwyr. Roedd adran 23 o'r Ddeddf yn darparu mai'r busnes cyntaf i'w drafod yng Nghyfarfod Blynyddol y Prif Gyngor yw ethol Cadeirydd. Roedd adran 25A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu bod gan Gadeirydd y Cyngor yr hawl i'r enw "Maer" neu "Mayor". Ar 30 Hydref 2002, bu'r Cabinet yn ystyried y ddarpariaeth gyfreithiol yn ymwneud ag enw'r Maer a phenderfynwyd y dylid cefnogi a chyflwyno'r hawl i'r Cadeirydd ddefnyddio'r enw a bod hynny'n cymryd effaith o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2003 ymlaen.

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Cynghorydd Julie Aviet yn cael ei enwebu ar gyfer ei hethol fel Maer yn y Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar 10 Ebrill, 2023.

(2) BOD y Cynghorydd Elliot Penn yn cael ei enwebu ar gyfer ei ethol yn Ddirprwy Faer yn y Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar 10 Ebrill, 2023.

922 DEFNYDD O BWERAU BRYS Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Prif Weithredwr fel y'i ceir o fewn yr adroddiad yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

923 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (SW/PGCD) -

adroddiad yn cynnig newidiadau i nifer o Ddirprwyaethau Swyddogion ynghyd â diwygiadau i Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD – BOD y newidiadau i'r dirprwyaethau swyddogion perthnasol a Rheolau Gweithdrefn Contract fel y'u pennir ym mharagraffau 2.2 i 2.6 o'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo a'r Cyfansoddiad wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn diweddarau'r Cynllun Dirprwyo'r Swyddog a Rheolau Gweithdrefnau Contract o fewn y Cyfansoddiad presennol.

924 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU (CAC) –

Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i lunio yn unol ag adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor ac roedd yn manylu ar y gwaith a wnaed gan bum Pwyllgor Craffu'r Cyngor yn ystod 2021/22 ac yn amlygu'r cyflawniadau allweddol.

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021/22 yn cael ei dderbyn.

Y rheswm dros y penderfyniad

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu fel sy'n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

925 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y FRO 2023-28 (CYF) –

Dywedodd yr Arweinydd ei bod wrth ei bodd yn dod â'r mater gerbron y Cyngor, a bod hynny'n benllanw llawer iawn o waith caled gan swyddogion, Aelodau a'r holl randdeiliaid perthnasol. Roedd y Cynllun Drafft wedi cael ei atgyfeirio i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor perthnasol fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor ar y Cynllun uchod.

Hysbysodd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar eu bod wedi cymeradwyo'r Cynllun gan nodi ei fod yn un o'r Cynlluniau cryfaf ar draws Cymru yr oeddent wedi'i weld a'i fod yn hynod uchelgeisiol a realistig a'i fod yn gosod dealltwriaeth glir o'r Cynllun, y cyfleoedd a'r materion a nodwyd mewn ffrydiau gwaith a'r camau a gynlluniwyd i alluogi dull cydgysylltiedig o gyflawni'r tri amcan. Diolchodd i'r holl swyddogion a oedd wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r Cynllun.

PENDERFYNWYD – BOD y Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn cael ei gefnogi a'i gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

926 STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 A CHYNYGION TERFYNOL Y RHAGLEN GYFALAF 2023/24 I 2027/28 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C236, 27 Chwefror, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

927 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A BUDDSODDI 2023/24 A DIWEDDARIAD 2022/23 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C237, 27 Chwefror, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

928 CYLLIDEB DERFYNOL 2023/24 A CATC 2023/24 I 2028/29 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C238, 27 Chwefror, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

929 DYFARNU CONTRACT CANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF 2023-26 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C260, 16 Mawrth, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

930 ADOLYGIAD ARDAL FFIN GYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C265, 30 Mawrth, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

931 GWEITHGAREDDAU LEFEL GWASANAETH A THARGEDAU
PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR
BRO MORGANNWG 2023/2024 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C267, 30 Mawrth, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

932 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Y FRO 2023-28 (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C285, 13 Ebrill, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

933 YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR
DDIWYGIADAU PELLACH I 'NODYN CYNGOR TECHNEGOL (NCT) 15:
DATBLYGU, LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL' (CYF) -

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C287, 13 Ebrill, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

934 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau'r Aelodau fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C. Ianucci**

Roeddwn yn falch iawn o ymuno â menywod ifanc a merched 'Ei Llais Cymru' pan gyflwynon nhw eu hadroddiad "Nid ydym yn Teimlo'n Ddiogel" ar ddiogelwch strydoedd ac aflonyddu rhywiol i gynulleidfa aml-asiantaeth yn Siambr y Cyngor yn ddiweddar. Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r materion a godwyd a mynd i'r afael â hwy?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae'n bleser gennyf nodi bod ein swyddogion ar hyn o bryd yn y broses o weithio gyda phartneriaid i nodi mannau diogel yn y gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â busnesau lleol, grwpiau cymunedol a'r gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i nodi mannau o'r fath. Mae hyn yn unol â'r ymgyrch 'Gofyn i Fi', sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth yn y gymuned o'r trefniadau cymorth sydd ar gael. Bydd cyngor a gwybodaeth hefyd yn parhau i gael eu rhannu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal, mae Diogelwch ar y Strydoedd ac Aflonyddu Rhywiol hefyd yn rhan o Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2023 – 28, sydd yn y broses o gael ei chwblhau i'w chymeradwyo'n derfynol gan bob Asiantaeth Statudol. Bydd ffrydiau gwaith pellach a chamau cymorth yn deillio o'r Strategaeth hon a bydd manylion hyn ar gael maes o law.

Yn olaf, gallaf ddweud fy mod eisoes wedi cael trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr ynghylch sut y gallwn godi proffil yr agwedd bwysig hon ymhellach a sut y gallwn gynnwys y Pwyllgor Craffu perthnasol yn y gwaith.

Atodol

Gan gyfeirio at drafodaethau yr oedd wedi'u cael gyda menywod ifanc a oedd yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor ynglŷn â'r problemau amrywiol yr oedd yn eu hwynebu, nododd y Cynghorydd Ianucci y byddai hi a chyd-aelodau'r bwrdd yn mynd am dro o amgylch Ward Cadog fel bod menywod ifanc yn gallu nodi'r meysydd hynny y teimlent eu bod yn anniogel. Gwahoddodd Aelodau'r Cabinet a swyddogion perthnasol y Cyngor i ymuno â hi ar y daith gerdded i weld yn uniongyrchol y pryderon oedd gan fenywod ifanc am feysydd anniogel.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hapus i dderbyn gwahoddiad a mynychu.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa gelf gyhoeddus sydd wedi'i chomisiynu gan Gyngor Bro Morgannwg ers 2012, ac ym mha leoliadau, a faint o arian adran 106 sydd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi hyn?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Mae amrywiaeth eang o brosiectau celf gyhoeddus wedi cael eu comisiynu gan y Cyngor ers 2012. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau goleuo awyr agored, murluniau, paneli hysbysfyrddau, celf palmant, ffenestri lliw, gatiâu/rheilïau, llwybrau celf a mannau celf a chrefft newydd o fewn cyfleusterau cymunedol megis llyfrgelloedd. Mae gwaith celf hefyd wedi'i integreiddio i offer ffitrwydd awyr agored newydd, rampiau parc sglefrio, walïau dringo, padïau sblash a seddau meincïau. Mae prosiectau o'r fath wedi helpu i hwyluso creu lleoedd drwy wella ansawdd ac atyniad mannau agored cyhoeddus a thir y cyhoedd o fewn yr awdurdod. Mae gweithïau celf eraill wedi eu dylunio o amgylch byd natur, fel y gwestai gwenyn yn yr Arcot Triangle, Penarth. Mae arian celf cyhoeddus hefyd wedi cael ei ddefnyddio tuag at gyfleusterau cymunedol newydd fel Pafiliwn Belle Vue a'r Iloches newydd ar Cliff Hill, Penarth.

Mae gweithïau celf cyhoeddus wedi'u lleoli ledled y Fro ac wedi cael eu hariannu gan nifer o ffynonellau gan gynnwys arian adran 106, Cronfa Adfywio'r Barri, Grant Adfer yn dilyn Covid ar gyfer Canol Trefi, Arian Treftadaeth y Loteri, Creu Tonnau'r Barri, arian Trawsnewid Trefi a chyllid Teithio Llesol. Mae'r Cyngor wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth sicrhau cyfraniadau adran 106 ar gyfer celf gyhoeddus o ddatblygiadau cymwys newydd yn unol â'r polisi 1% o gostau adeiladu a nodir yn y Canllawïau Cynllunio Atodol ar gyfer [Celf Gyhoeddus](#) ac [Ymrwymïadau Cynllunio](#). Ers 2012, mae tua £1.2 miliwn o arian adran 106 wedi cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau celf gyhoeddus newydd. Mae manylion llawn y cyfraniadau celf gyhoeddus a dderbyniwyd o dan adran 106 ers 2012, a'r cynnydd o ran gweithredu wedi'u cynnwys yn yr Adroddïadau Blynnyddol a'r atodiadau o dan adran 106 sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Atodol

Diolchodd y Cynghorydd Dr. Johnson i'r Aelod Cabinet am ei hymateb manwl a holodd a oedd wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy ynglŷn ag ymgyrch i ddefnyddio murluniau fel rhan o'r gwaith o adfywio canol trefi.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd, ond roedd yn hapus i drafod y mater gyda'i chydweithiwr yn y Cabinet.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Mae Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Docïau'r Barri yn cael ei hadeiladu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu torri cyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysïau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, gan fygwth gwasanaethau

No.

yn y Barri. Pa wasanaethau bws y bwriedir iddynt ddefnyddio'r Gyfnewidfa newydd pan fydd yn agor yn ddiweddarach eleni?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy

Mae Cyfnewidfa Drafnidiaeth Aml-ddull Doc y Barri, a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn rhan o raglen o gynlluniau sy'n werth £50 miliwn, a ddatblygwyd gyda'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o weithredu Metro De Cymru.

Bwriad y Gyfnewidfa yw darparu ar gyfer gwahanol fathau o gludiant, gan gynnwys trenau, beiciau, tacsis a cheir yn ogystal â bysiau.

Roedd y gwasanaeth bws 88 sy'n cael ei gefnogi'n llawn yn ariannol ac sydd wedi'i contractio i Adventure Travel yn un gwasanaeth a glustnodwyd i wasanaethu'r Gyfnewidfa. Yn ogystal, mae Bws Caerdydd wedi bod yn ystyried pa rai o'u gwasanaethau yn y Barri a allai redeg i mewn ac allan o'r Gyfnewidfa, yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion.

Fodd bynnag, mae'r newyddion y disgwylir i gyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) ddod i ben ym mis Gorffennaf yn golygu bod unrhyw ychwaneged at wasanaethau bysiau a gynigiwyd yn flaenorol bellach wedi'i ohirio tra bod y rhwydwaith bysiau ar ôl y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau yn dod i ben.

Bydd y Gyfnewidfa yn gyrchfan allweddol ar gyfer y rhwydwaith bysiau newydd ac felly bydd gweithredwyr bysiau yn ei weld fel opsiwn deniadol i gysylltu bysiau â dulliau trafndiaeth cynaliadwy eraill. Drwy sicrhau bod gwell cysylltiadau a seilwaith ar gael, fy ngobaith yw y bydd yn cefnogi'r ddarpariaeth bysiau yn ei rhinwedd ei hun.

Mae diwedd cyllid y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau yn bryder i bob un o'r gwasanaethau bws ym Mro Morgannwg, ac yn wir yng Nghymru gyfan, ac mae swyddogion yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a gweithredwyr bysiau i gael syniad clir o sut olwg fydd ar y rhwydwaith bysiau masnachol ar ôl y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau. Pan fydd hyn yn hysbys byddwn mewn sefyllfa lawer gwell i ystyried sut, fel awdurdod lleol, y gallwn wella'r rhwydwaith ymhellach drwy "lenwi'r bylchau" gyda'r adnoddau sydd ar gael inni. Roedd y mater yn dal i fod yn destun trafodaethau gan gynnwys gyda'r Gweinidog, ac nid oedd unrhyw benderfyniadau pendant wedi'u gwneud hyd yn hyn ond roedd hi a swyddogion y Cyngor yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod Bro Morgannwg yn rhan fawr o'r drafodaeth honno.

Atodol

Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn siŵr bod yr Aelod Cabinet yn rhannu ei ddymuniad bod y gyfnewidfa drafnidiaeth yn llwyddiant ac na fyddai'n dod yn 'eliffant gwyn'. Gan gyfeirio at y cyllid a ddaeth gan Lywodraeth Cymru, holodd yr Aelod Cabinet ba bwysau ychwanegol y gallai'r Cyngor a CLILC ei roi ar

No.

Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i wneud yn siŵr y gallai'r bysiau fod yn ddigonol yn eu lle.

Ategodd yr Aelod Cabinet y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a'i bod hi a'i swyddogion yn cyflwyno'r achos ym mhob cyfarfod, gan gynnwys cyfarfodydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol. O'i safbwynt hi roedd y mater ar yr agenda ac roedd hi a swyddogion yn lleisio'u barn er mwyn sicrhau bod Bro Morgannwg yn derbyn adnoddau priodol, a byddai'n cadw'r pwysau hwnnw i fyny.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Yn ystod trafodaethau'r Gyllideb, rhagwelwyd mai dim ond 20% o gartrefi a fyddai'n manteisio ar y cynnig o wasanaeth tanysgrifio am ffi ar gyfer casglu gwastraff gardd, o gymharu â 60% o aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhad ac am ddim presennol. Beth mae'r Aelod Cabinet yn credu fydd yn digwydd gyda'r gwastraff gardd na fydd yn cael ei gasglu nawr gan Gyngor y Fro?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Cyfrifwyd yr amcangyfrif o 20% fel y lefel ofynnol o danysgrifwyr gwasanaeth y byddai eu hangen er mwyn cyflawni'r arbedion cyllidebol a briodolir i'r gwasanaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 / 2024. Nid oedd yn amcangyfrif o faint o danysgrifwyr fyddai'n manteisio ar y gwasanaeth mewn gwirionedd.

Roedd y gwasanaeth yn obeithiol y bydd nifer y tanysgrifwyr yn sylweddol uwch na 20% ac felly'n cynhyrchu mwy o incwm nag a ragwelwyd yn wreiddiol, a fydd yn sicrhau bod yr arbedion cyllidebol ar gyfer y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar gyfer 2023 / 2024 yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae hwn yn wasanaeth newydd, ac ni ellir rhagweld lefel y tanysgrifiad yn gywir nes ei fod wedi gweithredu am o leiaf un tymor.

Mae'r gwasanaeth yn disgwyl i fwyafri y trigolion fanteisio ar y gwasanaeth tanysgrifio, a / neu naill ai compostio gartref neu fynd ag ef i un o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Lleol y Cyngor yn uniongyrchol.

Atodol

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson, gan gyfeirio at ei sylwadau blaenorol a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth pan awgrymodd fod y ffigur o 20% yn amcangyfrif isel iawn o ran y nifer o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac, oherwydd ei bryder ynghylch yr hyn a oedd yn ymddangos iddi fel diffyg paratoi ar gyfer y posibilrwydd na fydd dwy ran o dair o'r aelwydydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol, gofynnodd i'r Aelod Cabinet pa adnoddau, os o gwbl, oedd wedi'u dyrannu i ymdrin â thipio gwastraff gardd ac ati yn anghyfreithlon a allai ddeillio o beidio â chael ei gasglu oherwydd bod preswylwyr yn penderfynu peidio â chymryd yr opsiwn tanysgrifio, neu ddim eisiau compostio gartref neu fynd ag ef i'r canolfannau ailgylchu gwastraff eu hunain.

No.

Dyweddodd yr Arweinydd fod ganddi lawer o ffydd ym mhreswylwyr Bro Morgannwg. Pe bai trigolion yn penderfynu peidio â defnyddio'r gwasanaeth roedd hi'n gobeithio y byddent yn ymddwyn yn gyfrifol wrth ymdrin â'u gwastraff gardd. Atgoffodd y Cynghorydd Dr. Johnson y byddai Tîm Troseddau Amgylcheddol y Cyngor yn ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon ac roeddent wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau erlyniadau mewn perthynas â thipio anghyfreithlon masnachol. Ailadroddodd fod ganddi bob ffydd yn nhrigolion y Fro i wneud penderfyniad gwybodus ac y byddent yn manteisio ar y gwasanaeth am ei fod yn rhesymol ei bris, yn cael ei gasglu o'r drws ac y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r gaeaf hefyd.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Roedd y Gyllideb yn cynnwys 77 o gynigion arbed, yr oedd 33 ohonynt yn gofyn am gwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb hyd at Lefel Sgrinio. Gan nodi'r astudiaeth 'Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer ticio blychau?' ddiweddar gan Archwilio Cymru, ble mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb terfynol gorffenedig wedi'u cyhoeddi, a faint o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb sydd wedi arwain at newidiadau yn y cynnig arbedion arfaethedig?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Cyhoeddir yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer cynigion y Gyllideb Refeniw yn gyffredinol fel rhan o adroddiad y Cabinet yn Atodiad G. Diweddarwyd yr Asesiad Effaith wrth gwblhau'r cynigion, ar ôl derbyn setliad terfynol Llywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fo'n amlwg o'r asesiad bod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol yn sylweddol. Ni chyrrhaeddodd y 33 o'r cynigion sgrinio'r trothwy hwn ac, o'r herwydd, nid ydyn nhw wedi cael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

Mae gwaith y Cyngor i ymateb i argymhellion Archwilio Cymru wedi dechrau ac mae adolygiad o'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y gweill. Mae hyn wedi cynnwys cynnal gweithdy i swyddogion, trafodaeth yn y Bwrdd Mewnwelediad Strategol a chyfarfod pwrpasol o'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y ffordd y mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r gwaith pwysig ar yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb – o safbwynt gweithdrefnol a diwylliannol.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddarparu diweddariadau ar gynigion arbedion unigol fel rhan o adroddiadau monitro ariannol chwarterol, gydag unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hadrodd fel rhan o'r gwaith hwn a/neu pan fydd materion unigol yn cael eu hystyried gan y Cabinet.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson beth oedd y broses i Gynghorwyr allu cael mynediad at Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'u herio.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ei sylwadau blaenorol ac atgoffodd y Cynghorydd Dr. Johnson mai un o ddibenion y Pwyllgorau Craffu oedd edrych ar y materion hyn, ac y byddai'n disgwyl i swyddogion y Cyngor, wrth gyflwyno adroddiadau i'w hystyried, y dylent fod yn gallu trafod ystyriaethau'r Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cydnabu fod yna arlliwiau penodol gyda'r Aseidiadau hyn ac roedd yn ymwybodol o sylwadau Archwilio Cymru mewn perthynas ag ymarferion ticio blychau, ond roedd yn poeni mwy pa un a oedd y blychau ticio hynny'n werth unrhyw beth a'i fod yn rhywbeth sy'n agos at ei chalon. Roedd hi hefyd yn ymwneud â chefnogi sefydliadau pan wnaethant dreialu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ac, o'r cychwyn cyntaf, bu'n ymwneud â chynnal grwpiau ffocws ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf difreintiedig a oedd yn cyfrannu at y Ddyletswydd Cydraddoldeb. Awgrymodd y byddai'n hapus i weld mwy o hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei ddarparu, a dim ond drwy waith craffu effeithiol a thrafod Aseidiadau o'r fath y byddai'r Cyngor yn gallu darparu gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb. Os oedd gan y Cynghorydd Dr. Johnson unrhyw awgrymiadau, roedd hi'n gwranddo, ac iddi hi roedd y mater yn rhywbeth yr oedd am ddelio ag ef yn effeithiol.

(vi) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.M. Cowpe

Yn ôl postiad Facebook ddiweddar gan y Cyngor roedd yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael 'adroddiad disglair' yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Fodd bynnag, roedd mwyafrif helaeth y 114 o sylwadau mewn ymateb i'r postiad yn negyddol. Mae rhai o'r sylwadau'n peri llawer o bryder, gyda chyhuddiadau bod y Cyngor yn dweud celwydd, yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol llwgr, yn derbyn cildyrnau, yn rhoi bonysau i weithwyr cymdeithasol ac yn gadael plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant heb weithiwr cymdeithasol am bedwar mis.

O ystyried yr ymateb negyddol a greodd y postiad hwn, a yw'r Aelod Cabinet yn teimlo bod y postiad hwn yn adlewyrchiad cywir o'r adroddiad arolygu, ac yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi ein staff gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio'n galed? Pa wersi a ddysgwyd o hyn a sut yr aethpwyd i'r afael â'r honiadau negyddol?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Rwy'n falch iawn o ganlyniad yr arolygiad diweddar a oedd wir yn gymeradwyaeth glodwiw o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Ar adeg pan fo'n gwasanaethau dan bwysau mawr, mae'n iawn ein bod yn dathlu llwyddiant ein staff yn gyhoeddus. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad AGC, cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad newyddion, cyhoeddodd y stori ar ei wefan, ac fe'i rhannodd ar-lein drwy Facebook, Twitter a LinkedIn. Gwnaethom hefyd rannu'r llwyddiant yn fewnol drwy ein mewnwyd, a chyfeiriodd y Prif Weithredwr ato yn ei e-bost wythnosol i'r holl staff.

Mae'r postiad y cyfeiriwyd ato wedi cyrraedd mwy na 10,000 o bobl drwy Facebook. Cafodd 134 o ymatebion lle gall pobl hoffi neu beidio â hoffi postiad, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol, er fy mod yn nodi bod mwyafrif y sylwadau gwirioneddol yn negyddol. Er nad wy'n diystyru'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r post, dylem gydnabod bod y rhai sydd â barn negyddol gref yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu yn y modd hwn ond, gan fod y sylwadau hyn yn cynrychioli barn dim ond tuag 1% o'r bobl a welodd y postiad, dylem fod yn wiliadwrus rhag ystyried eu bod yn gynrychioliadol. Roedd AGC wedi cynnwys barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn gwirionedd i lywio'u hadroddiad arolygu.

Mae'r cyhuddiadau yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich cwestiwn yn gwbl ddi-sail ac, er ei bod yn siomedig eu clywed yn cael eu hailadrodd a'u gwyntyllu eto yn ystod y cyfarfod hwn, mae'n tanlinellu i mi pam ei bod mor bwysig bod y Cyngor yn defnyddio'i sianelau cyfathrebu i hyrwyddo ymdrechion ein staff gweithgar a herio gwybodaeth anghywir fel hon sydd yn anffodus yn dod yn fwyfwy cyffredin ar-lein.

Atodol

Gan gyfeirio at y 14 argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwnnw nad oedd yn cytuno eu bod yn gymeradwyaeth wych, holodd y Cynghorydd Cowpe beth oedd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi staff yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn destun yr honiadau a oedd yn gyhoeddus.

Roedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, ac o'r farn eu bod yn gwbl ddi-sail. Atgoffodd yr Aelodau bod cynllun pum mlynedd yn deillio o'r adroddiad blaenorol ar gyfer 2021 a bod cynnydd da yn cael ei wneud i'w gyflawni. Byddai'n llawer gwell ganddo ganolbwyntio ar yr elfennau cadarnhaol yr oedd y Cyngor yn eu gwneud yn hytrach na chanolbwyntio ar sylwadau di-sail a wneir ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn cydnabod y bu heriau o ran staffio, ond roedd yn rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd ac roedd y galw am wasanaethau yn gosod heriau sylweddol i'r Cyngor. Fodd bynnag, ailadroddod fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da a bod staff ychwanegol wedi cael eu recriwtio i gefnogi'r galw hwnnw am wasanaethau. Roedd yn fwy na pharod i drafod y camau cadarnhaol yr oedd y Cyngor yn eu cymryd gyda'r Cynghorydd Cowpe. Awgrymodd fod yr adroddiad yn fwy cadarnhaol na negyddol, a nododd feysydd y gallai'r Cyngor wella arnynt, sy'n rhywbeth y byddai'n naturiol yn ei ddisgwyl o unrhyw arolygiad archwilio. Ei farn ef oedd ei bod yn iawn bod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi drwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor, gan gydnabod gwaith caled staff a sut yr oeddent wedi cyfrannu at welliannau o ran darparu gwasanaethau.

(vii) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.M. Cowpe

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Bro Morgannwg wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles, ynglŷn â lefel isel y cyllid ar gyfer addysg ym Mro Morgannwg. Mae'r lefel hanesyddol isel hon wedi'i gwaethygu yn sgil y ffaith y bydd Cyngor y Fro yn gwneud gwerth £2 filiwn o doriadau i gyllidebau ysgolion yn

No.

y flwyddyn ariannol newydd, gyda'r disgwyliad y bydd llawer o ysgolion yn pennu cyllidebau â diffyg.

Pa gamau y mae'r Aelod Cabinet yn eu cymryd i sicrhau bod ysgolion y Fro yn cael cyllid teg fesul disgybl gan Lywodraeth Cymru?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Mae Aelodau'r Cabinet a swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws nifer o sefydliadau a grwpiau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion i dynnu sylw at yr heriau difrifol y mae ysgolion yn eu hwynebu ym Mro Morgannwg a nodi'r effaith a deimlir gan ein staff a'n disgyblion. Yn ogystal, mae Arweinydd y Cyngor wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y mater yn benodol wrth i ni barhau i gydweithio i nodi llwybr ar gyfer newid ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau sy'n deillio o'r metrigau hen ffasiwn a'r fformiwla gyfredol a ddefnyddir i ddsbarthu cyllid addysg ledled y wlad.

Yn lleol, byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor wedi ariannu ysgolion ac addysg yn gyson uwchlaw asesiad gwariant safonol Llywodraeth Cymru, er mai hwn yw'r Awdurdod yng Nghymru sy'n derbyn y lleiaf o arian yn nhermau cyllid fesul disgybl. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag ysgolion i gefnogi eu proses barhaus o osod cyllideb yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, ond mae pob maes yn y Cyngor yn gorfod cyfrannu at gyflawni cyllideb gytbwys i'r Cyngor, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Atodol

Gofynnodd y Cynghorydd Cowpe a oedd yr Aelod Cabinet wedi cael unrhyw lwyddiant gyda Llywodraeth Cymru o ran ailedrych ar y cyllid y mae'r Cyngor yn ei gael oherwydd, yn ei barn hi, ni all fod yn iawn bod plentyn ym Mro Morgannwg yn derbyn llai o gyllid na phlant mewn mannau eraill yng Nghymru.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn llobio'n gyson er mwyn gweld newid. Byddai hi bob amser yn hoffi gweld cyllid ychwanegol a rhagor o arian yn cael ei wario ar addysg, boed hynny mewn perthynas â phremiymau disgyblion neu mewn perthynas â materion staffio. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Fro yn gyson yn gwario mwy na'u Hasesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer addysg er mwyn cefnogi addysg ac ysgolion. Eleni, roedd y ffigur hwnnw £1.187 miliwn yn uwch na lefel yr Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion o £122.166 miliwn. Roedd y Cyngor hefyd yn parhau i basbortio grantiau lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys £500,000 mewn cyllid TGCh yn uniongyrchol i ysgolion a £300,000 mewn cyllid UPFSM (Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd), a'r Cyngor oedd yr unig awdurdod lleol a oedd mewn sefyllfa i wneud hynny ar ôl cyflwyno UPFSM y mis hwn. Roedd swyddogion ac Arweinydd y Cyngor wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraethwyr y Fro mewn perthynas â'r materion cyllidebol. Roedd ganddi bob cydymdeimlad ac roedd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu.

(viii) **Cwestiwn gan y Cyngorydd C.P. Franks**

A wnaiff yr Aelod Cabinet nodi faint o gyrff llywodraethu ysgolion sydd wedi nodi eu bod yn debygol o gyflwyno cyllideb â diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn dilyn penderfyniad y Cabinet i dorri dros £2 filiwn o'r gyllideb addysg?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Mae ysgolion ar hyn o bryd yn gweithio trwy'r broses o osod cyllideb gyda chefnogaeth eu cyrff llywodraethu a gwasanaethau ariannol gan y Cyngor. Fel y gwyddoch, bydd y sefyllfa o ran cyllid ysgolion yn arbennig o anodd eleni o ystyried sefyllfa gyffredinol y Cyngor. Mae angen cadarnhau cyllidebau ysgolion ym mis Mehefin ac felly mae'n rhy gynnar i ddarparu'r lefel o fanylder y gofynnir amdano gan nad yw cyllidebau wedi'u pennu'n derfynol tra bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel ysgol. Mae ysgolion yn parhau i gael cymaint o gymorth ariannol â phosibl, ac ers dyroddi eu cyllidebau iddynt mae hyn yn cynnwys £700,000 pellach a ddyrannwyd i ysgolion mewn perthynas â'r offer TGCh a chymorth ar gyfer goruchwylio / staffio ganol dydd ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb yn y Fro, er enghraifft.

Atodol

Gan nodi graddau'r ansicrwydd ac awgrymu bod yn rhaid i'r Aelod Cabinet fod â syniad o lefel debygol y diswyddiadau mewn ysgolion ac i ba raddau, gofynnodd y Cyngorydd Franks i'r Aelod Cabinet a oedd hi'n paratoi ar gyfer cefnogi ysgolion a'r staff yr effeithir arnynt.

Atgoffodd yr Aelod Cabinet y Cyngorydd Franks nad oedd unrhyw Aelod na swyddog wedi gwneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â diswyddiadau hyd yn hyn a'i fod yn siarad cyn pryd. Efallai bod rhai ysgolion yn meddwl am wastraff naturiol ac roedd mesurau eraill o ran arbedion y gellid eu gwneud cyn ystyried diswyddiadau. Nid oedd yn barod i ddyfalu ar y mater, yn enwedig gan y byddai staff yn bryderus pe bai'n gwneud hynny heb unrhyw dystiolaeth.

(ix) **Cwestiwn gan y Cyngorydd C.P. Franks**

Efallai eich bod yn ymwybodol o'r anfodlonrwydd aruthrol ynghylch cyflwr ffyrdd a phalmentydd y Fro. O Benarth i Ogwr mae'r amodau wedi dod yn argyfyngus. Mae tyllau dwfn, rhannau cyfan o'r priffyrdd mewn cyflwr ofnadwy ac mae cerbydau'n cael eu difrodi. Pryd y bydd y cyhoedd yn gweld gwelliant sylweddol yn y sefyllfa ofnadwy hon?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae'r amodau presennol ar briffyrdd ym Mro Morgannwg yn debyg i lawer o ardaloedd eraill yn y DU ac yn ganlyniad i gyfuniad o gyfnodau estynedig o dywydd garw, yn enwedig glaw trwm a pharhaus, a diffyg buddsoddi ar lefel genedlaethol mewn cynlluniau ail-wynebu a thrin priffyrdd dros lawer o

No.

flynyddoedd. Nododd Arolwg Blynyddol o Gynnal a Chadw Ffyrdd Awdurdodau Lleol (ALARM) 2023 ar gyfer y DU fod timau Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr ond yn cael tua dwy ran o dair o'r cyllid sydd ei angen arnynt, ar gyfartaledd, i atal ein ffyrdd lleol rhag dirywio ymhellach a bod angen mwy na £14 biliwn, neu £68,000 am bob milltir o'r ffordd bellach, i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio priffyrdd.

Gan ddweud hynny, yr adeg hon bob amser yw'r cyfnod mwyaf heriol o'r flwyddyn ar gyfer diffygion priffyrdd ac mae tîm cynnal a chadw priffyrdd y Cyngor wedi defnyddio nifer sylweddol o adnoddau ychwanegol drwy ei Gontractwr Cynnal a Chadw gyda'r nod o fynd i'r afael â'r holl atgyweiriadau a nodwyd sydd o fewn cwmpas ein hymyrraeth atgyweirio. Mae'r diffygion hyn naill ai'n cael eu nodi gan ein harchwiliadau o briffyrdd, a gynhelir o leiaf bob chwe mis, neu drwy aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio ein nodwedd 'adrodd amdano'. Wrth i'r tywydd wella, fe welwch gyflwr wyneb y briffordd yn gwella dros y misoedd nesaf.

Dros y tymor hwy, rydym yn gobeithio y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig yn sgil y cyhoeddiad diweddar ganddi bod unrhyw brosiectau adeiladu ffyrdd newydd yng Nghymru yn dod i ben.

Byddem yn parhau i annog trigolion i ffonio C1V neu ddefnyddio ein nodwedd 'adrodd amdano' ar y we os ydynt yn gweld twll yn y ffordd y maent yn ystyried bod angen i ni roi ein sylw iddo.

Atodol

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod yn ymwybodol y gallai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyllid priffyrdd ychwanegol a gofynnodd i'r Aelod Cabinet faint yr oedd y Cyngor yn debygol o'i gael gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd wedi cael unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Pe bai'n gwneud hynny byddai'r holl Aelodau'n cael yr wybodaeth.

(x) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks

Cafodd Ysgol Pencoedtre adroddiad arolygu siomedig iawn gan Estyn. Mae yna faterion sylweddol i fynd i'r afael â nhw. Er bod y mater hwn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu nid oes diweddariad wedi cael ei gyhoeddi. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon yr arolygwyr a phryd y bydd yr ymateb yn cael ei adrodd i'r Cyngor?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Yn syth ar ôl yr arolygiad, gwnaed nifer o newidiadau i uwch dîm arwain yr ysgol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad arolygu. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys secondio pennaeth gweithredol hynod brofiadol i'r ysgol yn syth ar ôl y Nadolig, a phenodi dau bennaeth cynorthwyol newydd, y dechreuodd y ddau ohonynt yn eu swyddi ar ôl gwyliau'r Pasg. Yn ogystal, mae

No.

dirprwy bennaeth wedi cael ei benodi. Roedd e'n gweithio ym Mhencoedtre ar secondiad yn ystod tymor y gwanwyn ond mae bellach yn gweithio'n llawn amser fel dirprwy bennaeth. Yn ogystal â'i brofiad sylweddol o arwain, mae'n arbenigwr ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a bydd yn arwain ar yr agwedd hollbwysig hon ar waith yr ysgol er mwyn sicrhau'r gwelliannau gofynnol. Bellach mae rolau a chyfrifoldebau clir ar draws yr uwch dîm arwain a llinellau atebolrwydd clir.

Mae cynllun cymorth cynhwysfawr wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r ysgol a Chonsortium Canolbarth y De er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a'r pryderon a nodwyd gan yr arolygwyr ac mae hwn wedi cael ei rannu ag Estyn. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan swyddogion yr ALI a bydd Consortium Canolbarth y De ac Estyn hefyd yn ymweld â'r ysgol bob tymor er mwyn monitro cynnydd yn erbyn pob argymhelliad. Byddaf i fy hun yn cael diweddariadau rheolaidd, ac os yw'n wybodaeth y gallaf ei rhannu â chi, fe wnaaf hynny.

Atodol

Wrth gyfeirio at y gostyngiad cyffredinol yng nghyllidebau ysgolion a fyddai, yn ei farn ef, yn llesteirio gweithrediad unrhyw Gynllun Gweithredu Ysgol holodd y Cynghorydd Franks yr Aelod Cabinet ynghylch pa gyllid ychwanegol a oedd wedi cael ei ddyrannu i'r ysgol hyd yma.

Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yr wybodaeth honno ganddi wrth law ac y byddai'n rhoi ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Franks.

(xi) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper

Pa sicrwydd y gall y Cyngor ei roi i drigolion presennol a darpar drigolion datblygiad Ceir Dwyrain ar y Glannau y bydd eu cartrefi'n ddiogel rhag perygl llifogydd, yn enwedig ar adeg llanwau mawr sy'n cyd-daro â'r chyhydros? Mae'r llifogydd diweddar o amgylch yr hen ddoc sych, y rhoddyd llawer o sylw iddynt, wedi poeni llawer o bobl a byddwn yn croesawu unrhyw gamau i ystyried yr holl ddatblygiadau (gan gynnwys datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol) o amgylch ymyl y dociau fel rhan o'r ymateb.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Yn dilyn y llanw uchel, cafodd y safle ei archwilio gan y Cyngor yn ei rinwedd fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac roedd yn amlwg, er bod y dŵr wedi cyffwrdd â'r wal, roedd oddeutu 2-3 metr yn is na lefel llawr gorffenedig y tai. Nid oes tystiolaeth na rheswm i gredu nad yw'r tai wedi cael eu hadeiladu yn unol â'r cynlluniau a ganiatawyd. Mewn perthynas â datblygiadau yn y dyfodol o amgylch ardal y dociau, bydd y rhain yn cael eu hystyried yn erbyn y profion a'r meini prawf yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl o Lifogydd). Mae fersiwn newydd o'r Nodyn Cyngor Technegol i fod i ddod i rym yn ddiweddarach eleni ac mae hyn yn debygol iawn o barhau i olygu bod angen cadw Datblygiadau Hynod Agored i Niwed (e.e. datblygu preswyl) allan o barthau llifogydd risg uchel. Bydd

No.

ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn yr ardal hon yn destun ymgynghoriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn rhoi cyngor ar berygl llifogydd.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd MJ. Hooper**

Mae gan y cynllun trwyddedau parcio yn Ynys y Barri, fel y'i darparwyd, rai diffygion difrifol, yn enwedig y ffaith bod ffyrdd fel Redbrink Crescent yn un o'r ardaloedd lle cyflwynir y nifer uchaf o docynnau am barcio yn y Fro, sy'n dangos bod llawer o bobl yn dal i fethu ag adnabod y gwahaniaeth rhwng ardal i drigolion yn unig ac ardal sydd allan o barth. Nid yw cyflwyno mwy o docynnau am barcio wedi datrys y broblem parcio gan fod lleoedd parcio i drigolion bellach yn cael eu llenwi â cheir â thocynnau.

Dywedwyd wrth drigolion y byddai'r mater yn cael ei adolygu ac y byddai cynllun newydd yn ei le cyn i dymor yr haf hwn ddechrau. Rwy'n cael ar ddeall gan swyddogion nad yw hyn yn wir bellach. A all yr Aelod Cabinet roi esboniad i drigolion am yr oedi?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Byddwn yn datgan yn gyntaf nad wyf yn derbyn nad yw'r trefniadau trwyddedau parcio i drigolion ar gyfer trigolion sy'n byw ar strydoedd a drwyddedir ar Ynys y Barri wedi rhoi mwy o gyfleoedd parcio iddynt nag a oedd yn wir o'r blaen. Pe na bai unrhyw reolaethau parcio preswyl a chyda'r galw mawr diweddar am ymwelwyr yn Ynys y Barri byddai llawer o drigolion wedi cael trafferth difrifol i gael unrhyw gysondeb o ran parcio yn agos at eu cartrefi pe na bai'r parthau hyn wedi cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall defnyddio Parthau Parcio ar gyfer strydoedd nad ydynt naill ai'n ffyrdd pengaead neu o fewn datblygiad tai wedi'i ddiffinio'n glir sydd ag un ffordd i mewn ac un ffordd allan, fod yn broblemus fel sy'n wir am Redbrink Crescent.

Mae ein swyddogion wrthi'n casglu tystiolaeth ynghylch yr holl barthau cynlluniau parcio trwydded i drigolion a gyflwynwyd yn flaenorol mewn gwahanol ardaloedd preswyl ledled y Fro yn ystod haf 2021, gan gynnwys Ynys y Barri. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei hadolygu er mwyn pennu'n gyffredinol sut mae'r cynlluniau wedi perfformio a pha addasiadau y gall fod angen eu gwneud i'r polisi yn y dyfodol er mwyn gwella'r broses. O ran parthau parcio â thrwydded i drigolion Ynys y Barri, cydnabyddir, er gwaethaf y ffaith bod arwyddion sy'n cydymffurfio wedi'u gosod wrth y pyrth mynediad, fod yna broblemau o ran diffyg cydymffurfedd sy'n arwain at alwadau gorfodi sylweddol, a rhagwelir y bydd y data sy'n cael ei gasglu yn helpu i nodi sut y gellir diwygio neu wella'r cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn yn y dyfodol.

Mae swm sylweddol o ddata i'w gasglu a'i ystyried mewn perthynas â'r adolygiad hwn ledled y Fro, sydd wedi arwain at rywfaint o oedi yn y broses hon. Gallaf eich sicrhau bod yr adolygiad yn symud yn ei flaen gyda diwydrwydd dyladwy ac mewn modd sy'n briodol gadarn, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion trigolion yn gyffredinol a'u bod yn ddigonol ac yn gymesur er mwyn ymdrin â'r pryderon a godwyd, gan gyflawni lefel dda o hunan-

No.

gydymffurfio i helpu i leihau'r lefelau o batrolau gorfodi. Yn achos Ynys y Barri mae'r adolygiad hefyd yn ystyried yr effeithiau niweidiol y gallai'r parthau preswyl fod wedi'u cael ar fusnesau lleol a chyfleusterau cymunedol.

Ar hyn o bryd rwy'n rhagweld y bydd adroddiad Cabinet ar y mater hwn ar gael cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, wedi hynny, o ystyried y gofynion polisi a chyfreithiol sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r parth parcio â thrwydded presennol i drigolion yn Ynys y Barri, mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni unrhyw newidiadau i Gynllun Ynys y Barri bellach yn ystod yr haf hwn. Yn y cyfamser, ac fel y dywedais, er ei fod yn cael ei dderbyn bod rhai pryderon ynghylch trefniadau presennol y parthau parcio â thrwydded i drigolion yn Ynys y Barri, mae'n fuddiol i drigolion o ran rheoli nifer yr ymwelwyr sy'n parcio yn y gymdogaeth breswyl o amgylch Friars Road a Redbrink Crescent.

935 CWESTIWN CYHOEDDUS –

Cafodd y cwestiwn canlynol ei gyflwyno a'i ateb fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. R. Curtis**

Mae'r tir a brynwyd yn gyfagos i Hayes Road wedi'i leoli wrth ymyl Hosbis Plant Tŷ Hafan a ddefnyddir gan deuluoedd â phlant sâl iawn sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae'r plant hyn a'u teuluoedd yn haeddu cael y cyfle i fod yn agos at fyd natur a'r heddwch a'r llonyddwch y byddai gwarchodfa natur o'r fath yn eu rhoi. Mae'r safle hefyd yn gyfagos i draeth lle darganfuwyd olion traed deinosoriaid ffosil, ac mae'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sy'n cynnwys nodweddion daearegol sy'n gofyn am reoli'r safle'n ofalus er mwyn eu gwarchod a'u cadw. Mae angen mwy o warchodfeydd natur fel Gwarchodfa Larnog yr Ymddiriedolaeth Natur nid mwy o feysydd carafanau!

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Natur a chwmnïau cemegol lleol, a fyddai Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi galwadau i'r tir yn Hayes Road gael ei ddiogelu a'i droi'n warchodfa natur er mwyn helpu i gyrraedd nod COP 15 i ddyrannu o leiaf 30% o'r tir a'r moroedd fel gwarchodfeydd natur erbyn 2030?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Nid yw'r tir dan sylw o dan berchnogaeth na rheolaeth y Cyngor. Mae'r tir wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd yng Nghynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer Defnydd Cyflogaeth o dan bolisi MG9. Mae'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol hwnnw ar y gweill ar hyn o bryd a bydd y Cyngor yn adolygu pa mor briodol yw'r dyraniadau presennol, neu a ddylai tir gael ei ddyrannu at ddibenion eraill (neu'n ddarostyngedig i beidio â chael ei ddyrannu o gwbl). Cafwyd galwad yn ddiweddar am Ddarpar Safleoedd, a oedd yn gwahodd cyflwyniadau i gynnig defnyddiau ar gyfer parseli o dir, er nad yw'r tir hwn wedi cael ei hyrwyddo fel gwarchodfa natur. Yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

No.

yw'r broses briodol ar gyfer ystyried dyraniadau / dynodiadau defnydd tir, ac rydym yn rhy gynnar yn y broses honno i ddod i gasgliad terfynol ar safleoedd penodol.